***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 664 (Cy. 181)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *22 Mehefin 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *24 Mehefin 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *20 Gorffennaf 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1), 17(2), 26(3) a 48 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014(**3**) at Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 828/2014 ynghylch y gofynion ar gyfer darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am absenoldeb glwten mewn bwyd neu fod llai o glwten yn bresennol ynddo gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y Rheoliad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

I'r graddau y mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer pwerau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 48(4A)(**4**) o'r Ddeddf honno.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**5**) wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adran 16(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999"). Diwygiwyd adran 17(2) gan baragraffau 8 a 12 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 ac O.S. 2011/1043. Diwygiwyd adran 48 gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) 1972 p. 68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) ac O.S. 2007/1388.

(**3**) O.S. 2014/2303 (Cy. 227).

(**4**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28).

(**5**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t 1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 652/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mai 2014.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Gorffennaf 2016.

**Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 wedi eu diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (6).

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) ar ddiwedd y diffiniad o "parod i'w fwyta", hepgorer "ac";

(ii) ar ôl y diffiniad o "parod i'w fwyta" mewnosoder—

"ystyr "Rheoliad 828/2014" ("*Regulation 828/2014*") yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 828/2014 ynghylch y gofynion ar gyfer darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am absenoldeb glwten mewn bwyd neu fod llai o glwten yn bresennol ynddo; ac";

(b) ym mharagraff (3), ar ôl "(gan gynnwys cyfeiriad at Erthygl yn FIC neu Atodiad iddo ac y mae paragraff (2) yn gymwys iddo)" mewnosoder "neu at Reoliad 828/2014 neu ddarpariaeth yn Rheoliad 828/2014,".

(3) Yn rheoliad 10 (trosedd)—

(a) ym mharagraff (1)(a) yn lle ", neu" rhodder ";";

(b) ym mharagraff (1)(b) yn lle "." rhodder "; neu";

(c) ar ôl paragraff (1)(b) mewnosoder—

"(c) ag unrhyw ddarpariaeth yn Rheoliad 828/2014 a bennir ym mharagraff (3).";

(d) ar ôl paragraff (2), mewnosoder—

"(3) Y darpariaethau yn Rheoliad 828/2014 yw—

(a) Erthygl 3(1) fel y'i darllenir gydag Erthyglau 1(3), 6, 7 ac 36(1) a (2) yn FIC ac Erthyglau 2 a 3(2) a (3) o Reoliad 828/2014 a'r Atodiad iddo;

(b) Erthygl 4 fel y'i darllenir gydag Erthygl 2."

(4) Yn rheoliad 12 (cymhwyso darpariaethau'r Ddeddf)—

(a) ym mharagraff (1)(a)(i) ar ôl "darpariaeth yn FIC" mewnosoder "neu Reoliad 828/2014";

(b) ym mharagraff (2)(a) ar ôl "darpariaeth yn FIC" mewnosoder "neu Reoliad 828/2014".

(5) Yn Atodlen 1 (darpariaethau y Rheoliadau hyn sy'n cynnwys cyfeiriadau newidiadwy at FIC yn rhinwedd rheoliad 2(3))—

(a) yn y pennawd ar ôl "FIC" mewnosoder "neu Reoliad 828/2014"; a

(b) yn y llinell gyntaf, ar ôl "ac eithrio'r diffiniad o "FIC"", mewnosoder "a Rheoliad 828/2014".

(6) Yn Atodlen 4 (cymhwyso ac addasu darpariaethau'r Ddeddf)—

(a) yn Rhan 1, paragraff 1—

(i) ar ddiwedd is-adran (1A)(c) hepgorer "or";

(ii) ar ddiwedd is-adran (1A)(d)(iii) hepgorer "or";

(iii) ar ddiwedd is-adran (1A)(d)(iv) yn lle "." rhodder—

"; or

(e) a provision of Commission Implementing Regulation (EU) No 828/2014 on the requirements for the provision of information to consumers on the absence or reduced presence of gluten in food specified in the table in Part 4 of Schedule 5 to the Food Information Regulations (Wales) 2014 (as read with regulation 2(3) of, and Schedule 1 to, those Regulations).";

(b) yn Rhan 2, paragraff 2, ym mharagraff (a)(iii) ar ôl "any other provision of Regulation (EU) No 1169/2011 of the European Parliament and of the Council" mewnosoder "or Commission Implementing Regulation (EU) No 828/2014 on the requirements for the provision of information to consumers on the absence or reduced presence of gluten in food".

(7) Yn Atodlen 5 (hysbysiadau gwella – darpariaethau FIC penodedig)—

(a) yn y pennawd, hepgorer "FIC";

(b) ar ôl Rhan 3 mewnosoder—

## "RHAN 4

### Y darpariaethau yn Rheoliad 828/2014 y caniateir i hysbysiadau gwella gael eu cyflwyno mewn perthynas â hwy ar ac ar ôl 20 Gorffennaf 2016

| *Y ddarpariaeth yn Rheoliad 828/2014* | *Y ddarpariaeth sydd i'w darllen gyda'r ddarpariaeth yn Rheoliad 828/2014* |
|---|---|
| Erthygl 3(1) | Erthyglau 1(3), 6, 7 ac 36(1) a (2) yn FIC ac Erthyglau 2 a 3(2) a (3) o Reoliad 828/2014 a'r Atodiad iddo |
| Erthygl 4 | Erthygl 2 o Reoliad 828/2014". |

**Dirymu**

**3.** Mae Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sy'n Addas i Bobl ag Anoddefiad tuag at Glwten (Cymru) 2010(**6**) wedi eu dirymu.

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

22 Mehefin 2016

(**6**) O.S. 2010/2651 (Cy. 219).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 828/2014 dyddiedig 30 Gorffennaf 2014 ynghylch y gofynion ar gyfer darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am absenoldeb glwten mewn bwyd neu fod llai o glwten yn bresennol ynddo (OJ Rhif L 228, 31.7.2014, t 5) ("Rheoliad 828/2014").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 (O.S. 2014/2303 (Cy. 227)) ("RhGF") drwy—

(a) mewnosod diffiniad o Reoliad 828/2014 a thrwy ddarparu bod unrhyw gyfeiriad yn RhGF at Reoliad 828/2014 i gael ei ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliad hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd (*rheoliad 2(2), 2(5)*);

(b) darparu y caiff awdurdodau bwyd, ar ac ar ôl 20 Gorffennaf 2016, ddyroddi hysbysiadau gwella, neu erlyn ar unwaith, ar gyfer methiannau i gydymffurfio ag Erthyglau 3(1) a 4 o Reoliad 828/2014 (*rheoliad 2(3), 2(4)(a), 2(6)(a), 2(7)*);

(c) rhoi pŵer i swyddogion awdurdodedig awdurdod bwyd neu awdurdod iechyd porthladd i fynd i mewn i eiddo er mwyn darganfod a oes, neu a fu, unrhyw achos o fynd yn groes i Erthyglau 3(1) a 4 o Reoliad 828/2014 (*rheoliad 2(4)(b), 2(6)(b)*).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sy'n Addas i Bobl ag Anoddefiad tuag at Glwten (Cymru) 2010 (O.S. 2010/2651 (Cy. 219)) (*rheoliad 3*).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.